

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

ECAD5008C – MdaPh DYNIAETHAU
Sesiwn 2

www.athrofa.cymru

Yn y sesiwn byddwn yn:

- Edrych ar fathau gwahanol o fodelau dysgu drwy ymholiad yn y Dyniaethau.

- Archwilio sut mae defnyddio strategaethau AaGD wrth gynllunio ac addysgu yn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd o fewn y Dyniaethau.

https://hwb.gov.wales/draft-curriculum-for-wales-2022/humanities

Yr Hyn sy'n Bwysig mewn Dyniaethau

Mae'r datganiadau yr hyn sy'n bwysig hynny yn gysylltiedig ac ni fwriedir iddynt gael eu trin ar wahân.

- Mae datblygu meddwl ymchwilgar yn galluogi dysgwyr i archwilio ac ymchwilio i'r byd, y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, drostynt nhw eu hunain.
- Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth ac yn cael eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.
- Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi ei ddylanwadu gan brosesau ffisegol a gweithredoedd dynol.
- Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac amrywiol, ac yn cael eu llunio gan weithredoedd a chredoau dynol.
- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau moesegol a chynaliadwy.

- Mewn gwersi hynod effeithiol, mae athrawon yn **cynllunio'n dda i adeiladu ar wybodaeth flaenorol** a mwyhau cynnydd.
- Mae'r gwersi hyn yn cynnwys **cyfuniad medrus o wybodaeth bynciol a datblygu medrau/sgiliau** disgyblion.
- Yn arbennig yng nghyfnod allweddol 2, caiff **disgyblion eu cynnwys yn rheolaidd mewn cynllunio eu dysgu**, o fewn yr ystafell ddosbarth, a'r **tu hwnt.**

ESTYN (2017)

‘High quality in primary humanities: insights from the UK’s school inspectorates’ – S. Catling (2017)

- High-quality humanities topics and lessons are meaningful to children and positively affect their learning.
- Expert planning and teaching sustain learning, through extended lesson times, and by blocking topics across several weeks, increasing time for depth of study.
- This approach enables children to focus, extend and deepen their learning, because they have opportunities to investigate and reflect on their studies.

Varied humanities teaching: a teacher's repertoire

- Inspectors noted that expert teachers of humanities use varied teaching methods which involve children in practical activities, rational and creative responses and reflection to generate depth in thinking and understanding.

- The best teachers of humanities therefore employ a wide ranging repertoire of approaches and resources.

These include:

- Observing and handling artefacts and objects;
- Reading, hearing and telling stories;
- Undertaking studies outside the classroom and school through fieldwork and in visits to museums, heritage sites and places of worship;
- Meeting and questioning experts on site and in school;
- Discussion and debate;
- Constructing and reconstructing situations through drama, role play and enactment;
- Model making and art.


Children told us they enjoyed learning when:

- It is hands-on and contains learning by doing;
- It involves art and creativity
- They contribute to the planning and get to make choices and ask questions
- They detect the teacher's enjoyment and enthusiasm
- The learning is flexible and responsive to their suggestions and interests;
- They are able to work in groups, negotiate and take responsibility for their own decisions and actions;
- They are able to turn their mistakes into opportunities for further learning. (E.T.I. 2014: 20)

Egwyddorion dysgu trwy ymholiad

- Ymholiad yn rhoi **dysgwyr yn rôl yr arbenigwr** wrth ymchwilio cwestiwn, mater neu dirgelwch.
- Mae'r athro yn **hwyluso** y dysgu wrth **sgaffaldio** y dysgu' (Vygotsky- ZPD)
- Ymholiad yn gallu bod yn **wers** neu **cyfres o wersi**.
- Rhaid defnyddio **ysgogiad/bachyn** *(stimulus) i* gyflwyno y cwestiwn neu'r broblem er mwyn creu diddordeb a chymell y dysgwyr ifanc i'w ateb/datrys.
- Mae'n galluogi athrawon i ddefnyddio **amrywiaeth o strategaethau AaGD** i sicrhau bod dysgwyr yn gwenud **cynnydd** yn ystod yr ymholiad.

Beth yw'r camau yn yr ymholiad?



Camau yn yr Ymholiad


- Creu yr angen i wybod
- Defnyddio adnoddau
- Gwneud synnwyr
- Myfyrio ar y dysgu

Pum cam dysgu ymholi mewn AG (Ofsted)

- **Cam 1: Llunio cwestiynau** – helpa'r athro'r disgyblion i nodi'r hyn yr hoffent ei wybod am bwnc penodol mewn AG a chytuno ar yr ymholiad/ ymholiadau i'w g/cynnal.
- **Cam 2: Cynllunio'r ymholiad** – yr athro/disgyblion yn trafod y modd yr ânt ati i gynnal eu hymholiadau a'r adnoddau y bydd eu hangen.
- **Cam 3: Cynnal yr ymholiad; cymharu a dadansoddi tystiolaeth**
- **Cam 4: Cyflwyno'r canfyddiadau** – defnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys: **Creadigol** – drama, chwarae rôl, meim, dawns, ychwanegu cyfeiliant taro neu ystumiau i stori neu gân grefyddol; gwneud gêm, creu lle arbennig. **Gweledol** defnyddio gludwaith, lliw, siartiau, diagramau, fideo, ffotograffau, cyflwyniadau amlgyfrwng. **Llafar** – defnyddio recordiad neu gyflwyniad neu drafodaeth. **Ysgrifenedig** – barddoniaeth, dyddiadur adfyfyriol, llythyr, e-bost, stori, adroddiad papur newydd ac ati. **Cynnal dathliad.**
- **Cam 5: Adfyfyrio ac ymateb** – annog y disgyblion i feddwl am eu syniadau eu hun ynghylch yr ystyriaethau sy'n deillio o'r pwnc.

‘Model S’ – offeryn syml ar gyfer ymholiadau lleol

- Beth ydy ein ffocws?
- Beth ydym yn ei wybod am y lle/amser?
- Beth ydym eisiau ei ddarganfod ‘go iawn’?
- Pa adnoddau eraill a TGCh sydd angen arnom?



- Sut y gallwn ddweud wrth eraill am ein gwaith?
- Pwy fyddai gyda diddordeb?
- Beth weithiodd yn dda/ ddim cystal?
- Pa gwestiynau sy heb eu hateb?

- Sut ydym am ddarganfod hyn?
- Ble gallen ni edrych?
- Gyda pwy gallen ni siarad?

- Beth a sut ydym am gofnodi?
- Beth mae pob ffynhonnell yn ei ddweud?
- Beth ydyn ni ddim yn ei wybod?
- Beth ydy’r negeseuon pwysig?

Defnyddio ‘Cwestiwn Mawr’

CWESTIWN ‘MAWR’

Is-gwestiynau

Pwy oedd y Celtiaid?



- Sut bobl oedd y Celtiaid?
- O ble y daethant?
- Beth oedden nhw’n fwyta?

Ffrâm Ymholiad Hanes

Cwestiynau	Ffynonellau Cynradd a/neu Eilradd
Ein cwestiwn mawr:	
Ein cwestiynau bach (fe fydd y rhain yn ein helpu i ateb y cwestiwn mawr):	

Prosesau Ymholiad

ELFEN YMHOLI	CWESTIYNAU YMHOLI	CAMAU YN Y DYSGU
Ymwybyddiaeth Diffinio	Arwel Arth angen ein cymorth i wybod **sut fath o le** yw'r lle hwn?	Ysgogiad/symybliad Annog plant i fod yn ddaearyddwyr arbennigol
Disgrifio Dadansoddi/ Esbonio Rhagfynegi/ Gwerthuso	Lleoliad **Ble mae e?** **Sut le yw?** **Sut y daeth fel hyn?** **Sut mae'n newid?** **Beth am pobl gwahanol yn meddwl am y newidiadau?**	Gwneud synnwyr Rhoi sgaffaldiau heb ddatrys y broblem iddynt
Gwneud penderfyniad	Beth yw fy marn i? Beth fyddwn ni'n ei ddweud wrtho? Sut y byddwn y dweud wrtho?	Myfyrio Cyfathrebu - Cynulleidfa

Prosesau Ymholiad…

ELFEN YMHOLI	CWESTIWN YMHOLI	CAMAU YN Y DYSGU
Ymwybyddiaeth Echdynnu syniadau cyffrous	**Beth yw'r broblem?** Beth ydw i'n ei wybod am hyn nawr?	Ysgogiad
Disgrifio Dadansoddi/ Esbonio Rhagfynegi/ Gwerthuso	Ble mae'n digwydd? Sut y daeth fel hyn? Sut mae e'n newid? Beth mae pobl gwahanol yn ei feddwl am hyn? Beth ydy'r dewisiadau? Beth sy'n debygol o ddigwydd? Gyda pha ganlyniadau?	Gwneud synnwyr
Gwneud penderfyniad	Beth ddylai ddigwydd yn fy marn i?	Myfyrio

Modelu a Sgaffaldio y broses gwestiynu

Cwestiynau Arwel Arth… **(cysyniadau a ddatblygir mewn cromfachau)**	**Beth ydw i'n meddwl nawr?**	**Sut mae darganfod hyn?**
Ble mae'r lle? (cyfeiriad, lleoliad/safle)		
Sut le yw e? (synnwyr o le, nodweddion naturiol a dynol, patrwm gofodol)		
Sut mae Caerfyrddin yn wahanol i Gaerdydd? (nodweddion naturiol a dynol, synnwyr o le)		
A yw'n mynd i fod yn le deniadol yn y dyfodol? A yw wedi bod fel hyn erioed? (prosesau naturiol a dynol, cynaladwyedd		
Beth yw fy marn i? A fyddaf yn ei hoffi? (gwrthdaro barn)		

Sgiliau Hanes/Cysyniadau…

Sgiliau Hanesyddol


- Ymwybyddiaeth gronolegol
- Gwybodaeth a dealltwriaeth
- Dehongliadau o hanes
- Ymholiad hanesyddol
- Cyfathrebu a threfnu



CWESTIWN HANESYDDOL	CYSYNIAD A SGIL MEDDWL
Pryd ddigwyddodd? Faint o amser gymerodd?	Amser, cronoleg *Dilyniant/Trefnu (Sequencing)*
Beth ddigwyddodd? Sut oedd pethau adeg hynny?	Sefyllfaoedd hanesyddol (synnwyr o gyfnod) *Adnabod tebygrwydd a gwahaniaethau, cymharu a chyferbynnu, arsylwi, dosbarthu*
Pa mor hir y digwyddodd? A yw fel hyn heddiw? Sut a pham mae wedi newid?	Newid a pharhâd *Comparing and contrasting, sequencing, categorising*
Pam y digwyddodd? Beth oedd y canlyniad?	Achos ac effaith *Esbonio*
Pam roedd y person yn meddwl felly? Pam mae'r person hyn yn ei weld yn wahanol?	Safbwyntiau/ dehongliadau *Esbonio, gwerthuso*
Beth mae'r ffynhonnell yma yn ei ddweud wrtha i? A ydyw i'n gallu ymddiried ynddi? Ble y gallaf wirio gwybodaeth?	Tystiolaeth hanesyddol *Arsylwi, dehongli, gwerthuso*

Hanes llafar a gofyn/holi cwestiynau

- GWYBODAETH (e.e. dwyn i gof ffeithiau)
- DEALLTWRIAETH (e.e. disgrifio)
- CYMHWYSO (e.e. dewis)



lefel isel o feddwl yn cynnwys atgofio ffeithiau o'r cof wrth ymateb i gwestiynau yn cychwyn gyda geiriau megis 'Beth', 'Ble, 'Pwy' a 'Pryd'.


Lefelau o gwestiynu

- DADANSODDI (e.e. dod i gasgliad)
- SYNTHESIS (e.e. rhagfynegi)
- GWERTHUSO (e.e. barnu)



Mae meddwl ar lefel uwch yn gofyn am newid ar ffurf gwybodaeth sy'n bodoli, er enghraifft i gymharu neu gyferbynnu, egluro, ymestyn, ad-drefnu neu werthuso. Hynny yw, rhaid cofio deunydd dysgedig ac yna ei ddefnyddio neu ei gymhwyso i ddarparu ateb sydd ar lefel wybyddol uwch.

A ydym yn gallu defnyddio hetiau meddwl de Bono wrth gynllunio i sicrhau fod dysgwyr yn gwneud cynnydd yn y Dyniaethau?



De Bono, 1985

https://www.youtube.com/watch?v=7Sz8qLKV8Jo


Enghraifft – defyddio hetiau meddwl de Bono i helpu dysgwyr wneud cynnydd

https://www.youtube.com/watch?v=Zt0BymHNj30



See Think Wonder!

Gweld, Meddwl, Tybio



What do you see?

What do you think?

What do you wonder?

Cyfeiriadau

- Pickford, T. et al. (2013) *Primary Humanities – Learning through Enquiry*. London: Sage.
- Grigg, R. and Hughes, S. (2013) *Teaching Primary Humanities*. Harlow: Pearson Education (Model S – chapter 5 *)
- De Bono, E. (1999) *Edward de Bono Six Thinking Hats*. London: Penguin. https://www.youtube.com/watch?v=7Sz8qLKV8Jo
- https://cambridge-community.org.uk/professional-development/gswafl/index.html
- Sutton Trust – de Bono https://afaeducation.org/free-dt-resources/explore-our-resources/interventions-in-the-classroom/